



# CYNGOR CYMUNED LLANDWROG

## Cynllun Hyfforddiant i Staff a Chynghorwyr

### Mabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod dyddiedig 28 Tachwedd 2022

Mae Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd statudol ar Gynghorau Tref a Chymuned i lunio a chyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi cynghorwyr a staff.

Pwrpas y cynllun yw sicrhau bod y Cyngor ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob cynghorydd a staff fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddi newydd ar waith ar ôl pob etholiad arferol o gynghorwyr Cymuned, i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi sy'n deillio o newidiadau i aelodaeth y cyngor ac i ddarparu ar gyfer ethol cynghorwyr newydd. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'r Cyngor yn cyflogi un aelod o staff, rhan amser (0.4 FE), sef Clerc/Swyddog Gweinyddol/Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae gan y Clerc brofiad eang ym maes cyllid Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor yn hyderus fod gwybodaeth ac arbenigedd y Clerc/ Swyddog Ariannol Cyfrifol yn helpu i arwain a chefnogi strategaeth ariannol y Cyngor, monitro ei wariant ac incwm ac adnabod unrhyw risgiau i gyllid y Cyngor. Mae'r Cyngor yn annog ac yn cefnogi y Clerc i ddilyn cymwysterau CILA yn ogystal a chynnig rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus trwy fynychu cynadleddau, seminarau hyfforddi i Cynghorau Cymuned sy'n benodol i'r sector drwy gydol y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor 14 aelod - yn gymesgedd o aelodau profiadol ym maes Llywodraeth Leol a'r Sector Cyhoeddus, aelodau sydd yn rhedeg busnes, ac aelodau sydd yn arwain prosiectau mudiadau gwirfoddol y neu pentrefi. Mae gan yr aelodau hefyd arbenigedd mewn sawl maes sydd yn briodol i waith y Cyngor (er engraifft rheoliadau lechyd a Diogelwch a Rheoli Mynwentydd), ac aelodau newydd di-brofiad ym maes Llywodraeth Leol. Bydd asesiad o anghenion hyfforddi cynghorwyr yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol pan fydd cynghorwyr newydd wedi cael mwy o amser i setlo i mewn ac wedi dod yn gwbl gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd asesiad o anghenion hyfforddi yn rhan bwysig o arfarniadau staff ac aelodau. Er gwaethaf hyn, mae meysydd craidd i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol. Y rhain yw:

- Anwytho sylfaenol i gynghorwyr;
- Y Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Yn ogystal â'r meysydd hyn, bydd y Cyngor am ystyried a oes heriau a chyfleoedd newydd y gallai ddymuno eu harchwilio, er enghraifft, y rhai a gynigir gan y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

Os felly, efallai y bydd yn penderfynu bod sgiliau newydd i gynghorwyr a staff eu hennill yn y dyfodol o gyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf hwn.

O ran cynlluniau cychwynol y Cyngor, nodir y rhain yn y tabl canlynol:

<b>Cynigiwyd i</b>	<b>Beth</b>	<b>Sut</b>	<b>Pryd</b>	<b>Sylwadau</b>
Pob Cynghorydd	Mynychu o leiaf 2 Sesiwn hyfforddi o'r 23 Modiwlau sydd ar gael gan Un Llais Cymru	Cynigir trwy Un Llais Cymru.	Amserlen Un Llais Cymru, ond erbyn 31ain Mawrth 2024	Clerc i anfon rhestr cyrsiau misol / chwarterol Un Llais Cymru a trefnu fod aelodau yn mynychu yr hyfforddiant. Clerc wedi gofyn i pob aelod ddewis dau modiwl o'r 23 a gynnigir i aelodau fynychu yn y 12 mis nesaf.
Cadeirydd ac Is-gadeirydd	Ehangu gwybodaeth am ddatblygiadau ym maes Llywodraeth Leol yn benodol Cynghorau Cymuned	Mynychu cynadleddau a seminarau hyfforddi cynghorau lleol sy'n benodol i'r sector drwy gydol y flwyddyn.	31ain Mawrth 2024	Clerc i anfon manylion yr holl gynadleddau a seminarau perthnasol a allai fod yn briodol i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mynychu yn enwedig ar ddeddfwriaethau Llywodraeth Leol sy'n effeithio ar y Cyngor Cymuned.
Cadeiryddion Pwyllgorau	Ehangu gwybodaeth anmddatblygiadau ym maes Llywodraeth Leol yn benodol Cyllid a Rheoli Mynwentydd ac Asedau	Mynychu cynadleddau a seminarau hyfforddi cynghorau lleol sy'n benodol i'r sector drwy gydol y flwyddyn (materion yn ymwennud a Cyllid ac Rheoli Mynwentydd ac Asedau yn bennaf)	31ain Mawrth 2024	Clerc i anfon manylion yr holl gynadleddau a seminarau a chysiau hyfforddi perthnasol a allai fod yn briodol i Gadeiryddion Pwyllgorau eu mynychu yn enwedig ar ddeddfwriaethau Llywodraeth Leol sy'n effeithio ar Gyllid ac Asedau Cynghorau Cymuned.

Clerc y Cyngor	Datblygiad Proffesiynol Parhaus.	Mynychu cynadleddau a seminarau hyfforddi cynghorau cymuned sy'n benodol i'r sector drwy gydol y flwyddyn.	31ain o Fawrth 2024	Swydd yn wag ar ddyddiad cyhoeddi'r cynllun. Gobeithir penodi Clerc fydd yn gymwys ac yn brofiadol
----------------	----------------------------------	--	---------------------	--

**Rhestr Modiwlau mae'r Aelodau a Staff wedi dewis fynychu – cyfnod Tachwedd 2022 at Mawrth 2024**

Swydd	Modiwl 1	Modiwl 2	Arall	Sylwadau
Clerc				
Swyddog Ariannol Cyfrifol				
Cadeirydd – Gwyn Owen Jones				
Is-gadeirydd – Marnel Pritchard				
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid – David C Davies				
Cadeirydd Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau – Alan Patterson				
Cyng Eddie Willcox				
Cyng Alun Wyn Jones				
Cyng Sion Hywyn Griffiths				
Cyng. Heulwen Jones Griffiths				
Cyng. Bethan Mair				
Cyng. Hywel Owen				
Cyng. Bryn Williams				
Cyng. Alun Parrington				
Cyng. Clive Bayley				

**DR – Rheolwr Gweinyddol a Cyllid y Cyngor / Council Admin & Finance Manager**

Cyng Dyfed Williams				
---------------------	--	--	--	--